**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**11 Mai 2015**

**TANAU CEFN GWLAD A GLASWELLT**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am waith a wnaed yn ddiweddar mewn perthynas â thanau cefn gwlad a glaswellt yng Ngogledd Cymru.

## Cefndir

2 Ymhob gwanwyn, bydd y gwasanaethau tân ac achub (GTAau) yng Nghymru yn gweld cynnydd yn nifer y tanau cefn gwlad a glaswellt lle mae angen inni fod yn bresennol. Priodolwyd hyn i amrywiaeth o wahanol resymau, gan gynnwys tirfeddianwyr yn llosgi llystyfiant, a chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol.

3 Mae tanau cefn gwlad a glaswellt yn tueddu i ddenu sylw gwleidyddion a'r cyfryngau, yn enwedig os yw'r tanau'n eang neu'n agos at adeiladau.

## Gwybodaeth

4 Y gwanwyn eleni roedd nifer y tanau cefn gwlad a glaswellt yng Ngogledd Cymru yn eithaf tebyg i'r blynyddoedd blaenorol. Ond adroddwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer y tanau hyn mewn rhannau eraill o Gymru ac arweiniodd hynny at gynnydd yn y sylw gan y cyfryngau a gwleidyddion, yn enwedig yn ne Cymru.

5 Mae GTA Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda thirfeddianwyr i ddarparu addysg a gwybodaeth ynghylch eu cyfrifioldebau wrth gynnau tanau i glirio llystyfiant o’r tir. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i’r gwasanaeth tân ac achub am eu bwriad i losgi dan reolaeth, ac mae hynny’n gymorth i osgoi bod yn bresennol yn ddiangen mewn tanau wrth ymateb i adroddiadau a wnaed gydag ewyllys da gan bobl yn poeni am y tân.

6 Mae GTA Gogledd Cymru hefyd wedi bod yn gweithio’n galed gyda Heddlu Gogledd Cymru mewn achosion lle cafwyd bod tanau wedi cael eu cynnau’n fwriadol a bod amheuaeth o fwriad maleisus. Arweiniodd hyn, mewn rhai achosion, at arestio’r troseddwyr honedig, a’r Heddlu’n ymdrin â nhw.

7 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid drwy ei adran cyfathrebu corfforaethol, y swyddogaeth diogelwch tân a’r tîm lleihau llosgi bwriadol, gyda’r nod o barhau i leihau nifer yr achosion o danau cefn gwlad a glaswellt yng Ngogledd Cymru.

**Argymhelliad**

8 Bod yr Aelodau’n nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad hwn.